FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM
COFNODION DRAFFT

Ail gyfarfod ar ddeugain o'r Fforwm a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam, ar ddydd Gwener 30ain Medi 2011.

01/11 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Yn Bresennol:

YSGRIFENNYDD:
Caroline Selby (CS)

CADEIRYDD:
Mabyn Pickering (MP)

AELODAU:
Sue Gittins (SG)
Shelagh Roberts (SR)
John Cooper-Poole (JCP)
Mike Crawshaw (MC)
Gerald Moss (GM)
Tim Stratton (TS)
Bill Stephens (BS)
Ken Mumford (KM)
Edward Wardle (EW)

ERAILL
Sean Hanratty (SH) CBSW
Sion Roberts (SR) CBSW
Nicola Holmwood (NH) CBSW
Melina Jones (MJ) Arsylwi

Ymddiheuriadau:

Martin Howarth
George Kinder

Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod, ac yn enwedig Ken Mumford fel aelod newydd.

02/11 COFNODION A MATERION YN CODI O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3YDD MEHEFIN 2011:

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.

- **Camfeydd Cul**

Mae'r Gatiau Mochyn yn Owrtyn yn hynod gul fel y mae'r gatiau ger yr hen ysgol ym Marchwiel.
Y bwriad yw newid y Gatiau Mochyn sydd yn Y Waun.

- **Cynllun Datblygu Lleol**

Gofynnodd MP, SG a TS i FFMLl Wrecsam gael ymgynghori ar hyn.
Nid yw Fforymau Mynediad Lleol yn ymgynghoreion statudol ond maent yn fforwm statudol o Lywodraeth Cymru.

- **Cerbydau 4x4 yng Nghefn Gwlad**

Mae rhai cerbydau yn parhau i yrru oddi ar y llwybr dynodedig. Hefyd mae rhai o'r arwyddion wedi eu tynnu oddi yno.
Mae Llwybr Wayfarer yn briffordd ond nid yw'n Hawl Dramwy Cyhoeddus.

- **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol:**

Mae rhai o bobl Dyffryn Ceiriog yn anfodlon gyda'r cynlluniau i ymestyn yr AHNE. Mae Partneriaeth Glyn Ceiriog a'r Waun yn gorff anetholedig ond maent yn cynrychioli barn pobl leol.
Mae dynodiadau eraill wedi eu sefydlu sy'n amddiffyn Dyffryn Ceiriog.
Datganodd MC bod cynrychiolwyr etholedig ar gael sy'n cynrychioli'r trigolion a'r ffermwyr. Pennaf les y tir sydd o bwys i'r bobl hynny sy'n gweithio'r tir, a ganddynt hwy hefyd mae'r arbenigedd.

- **Cynllun Glastir:**

Mae'n bosib y bydd hi'n 2014 cyn bydd unrhyw effaith ar dirfeddianwyr. Mae'n bosib y bydd modd trafod Llwybrau

Caniataol dan Glastir – elfen wedi'i thargedu. Y gobaith oedd y byddai modd cynnwys llwybrau ar gyfer cerbydau, os yw hynny'n bosib.
Mae angen trafod AHNE a Glastir fel agwedd wleidyddol.

- **Prosiect Llwybr Cymunedol Broughton:**

Mae Gatiau Mochyn wedi eu gosod.

- **Ceidwaid Mynediad:**

Mae'r arolwg wedi ei gynnal.

Mae peth cyllid ar gael drwy Ogledd Gororau Cymru. Y gobaith yw y bydd modd cynnwys rhai llwybrau o amgylch y gamlas, gan gynnwys y parth clustogi.

- **Ymddiriedolaeth Chwarel Y Mwynglawdd**
  Aeth MP a TS ar ymweliad i Ymddiriedolaeth Chwarel Y Mwynglawdd a nodwyd nad yw rhai o'r llwybrau yn hygyrch. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn awyddus i weld mynediad mwy agored. Byddai hyn mae'n debyg mewn partneriaeth gyda CBSW.

- **Ffurflenni Hawlio**
  Mae'r rhain ar gael drwy'r ysgrifennydd.

- **Diweddariadau**
  Bryn Gwyntog – ei gadarnhau fel llwybr troed.
  Y 'Flash' (Brymbo) – dylai'r Gorchymyn gael ei wneud yn yr wythnosau nesaf.
  Llinell Reilffordd Llys Bedydd – dim cynnydd pellach ar hyn o bryd.

- **Diweddariad Cynllunio**
  Daw'r wybodaeth drwy gyfrwng yr e-bost. Mae'r aelodau, a restrir isod, ar gael i gynorthwyo yn yr ardaloedd canlynol o'r fwrdeistref sirol:
  BS – Gwersyllt a Moss
  KM – Gwersyllt
  GM – Bronington a'r ffin a hefyd Dyffryn Ceiriog
  JCP – Yr Orsedd
  SR – Garth
  MC – Dyffryn Ceiriog

TS – Bwlchgwyn, Brymbo a Moss
MP a SG – Erddig, Y Bers, Hafod ac Esclusham

- **Bronington 37**
  Mae Sion wedi cysylltu â'r perchennog tir, sydd wedi tynnu'r cloeon oddi ar y gât.
- **Mapiau Tirlyfr**
  Mae'r rhain yn cynnwys rhestr o hen linellau rheilffordd a thir arall sy'n eiddo i CBSW. Gall adran Rheoli Asedau CBSW ddarparu gwybodaeth a chymorth.

03/11 ADRODDIAD Y CADEIRYDD:

Anogwyd aelodau i ail-ymgeisio i fod yn aelodau o'r FfMLl newydd, am fod y gromlin ddysgu yn un serth a dylai fod rhywfaint o ddilyniant.

Y gobaith yw y bydd Sesiwn Sefydlu i'w gynnal ar gyfer hen aelodau ac aelodau newydd y FfMLl.

Mae proses Gorchmynion, Gwyriadau ac Addasiadau yn un hir, biwrocratig a drud.

Mae'r personél Hawliau Tramwy, Martin, Sean, Sion, Dave, Nicola ac Alison yn dîm bach ond gweithgar.

Yn ddiweddar cafodd Sue Gittings lawdriniaeth ar ei phen-glin, ac oherwydd hyn mae'n fwriad ganddi ymddiswyddo fel is-gadeirydd, a hynny'n syth. Mae Tim Stratton wedi cytuno i fod yn is-gadeirydd dros dro hyd nes daw'r FfMLl hwn i ben. Gwiriwyd y weithdrefn benodi gyda Chadeirydd FfMLl Cymru.

Rhoddwyd gair o ddiolch i Sue am yr holl waith a wnaeth yn ystod ei chyfnod fel is-gadeirydd.

Bydd Tim yn cyflwyno'r FfMLl hwn yng nghyfarfod Cadeiryddion FfMLl sydd i'w gynnal ar 13eg Hydref yn Llanelwedd.

Rydym yn ceisio ffrydiau ariannu ar gyfer prosiectau, ac mae'n bosib y bydd rhai yn gweithio gydag adrannau eraill o CBSW.

Rhoddwyd gair o ddiolch i Gerald Moss am barhau i fod mor wyliadwrus yn Nyffryn Ceiriog.

04/11 ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD:

Cafwyd adroddiad gan yr ysgrifennydd ar waith a wnaed a'r cyfarfodydd a fynychwyd, gan gynnwys y Gynhadledd Genedlaethol ar gyfer Fforymau Mynediad Agored yng Nghymru.

Eglurodd yr ysgrifennydd y byddai'r ail dymor 3 mlynedd yn dirwyn i ben yn Nhachwedd 2011 ac y byddai Fforwm newydd yn cael ei benodi. Gwahoddir pawb sydd yn aelod i ail-ymgeisio am aelodaeth o FfMLlW am dymor arall a bydd y ffurflenni cais yn cael eu dosbarthu maes o law.

GWEITHREDU:
CS i ddosbarthu'r ffurflenni cais.

05/11 CEIDWAID MYNEDIAD:

Llanarmon - Sion i wirio ardal Llanarmon D.C. parthed mynediad i lwybrau troed a Hawliau Tramwy Cyhoeddus, am fod pobl wedi sôn ei bod hi'n anodd cael mynediad i'r bryn o gyfeiriad y ffordd. BS i yrru manylion.

Lower Singrett Farm – mae rhwystr yma. SG i ddanfon manylion at SR.

Glyn Ceiriog 2 – wedi ei gadarnhau fel llwybr ceffylau.

Glyntraian 2 – mae darn wedi ei glirio ac mae gatiau ceffylau newydd wedi eu harchebu. Mae angen cysylltu â'r perchnogion, Y Comisiwn Coedwigaeth, parthed coed mwy o faint sydd i'w clirio. SR i ddod â diweddariad i'r FfMLl ynghylch y cynnydd ar hyn.

Gwnaed y cais am lwybr ceffylau yn 1992. Bu oedi oherwydd rhwystr ar y llwybr. Cafwyd buddugoliaeth yn yr Ymchwiliad a'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw apêl yw 7fed Hydref 2011. Mae unrhyw apêl i'w wneud i'r Uchel Lys.

GWEITHREDU:
BS i anfon gwybodaeth at SR.
GM i anfon yr arolwg i SR.
SG i anfon gwybodaeth i SR.
SR i archwilio Llanarmon a Lower Singrett Farm
SR i ddod â gwybodaeth yn ôl ar y cynnydd parthed Glyntraian 2

06/11 CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU:

MP i gysylltu â hwy ynglŷn â'u presenoldeb mewn cyfarfodydd.

GWEITHREDU:
MP i gysylltu â CCGC.

07/11 Cyflwyniad gan Sean Hanratty, Arweinydd Tîm Map Diffiniol, CBSW:

Rhoddodd Sean gyflwyniad ar:

- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Gorchmynion Addasu'r Map Diffiniol (GAMD)
- Gorchmynion a Chytundebau Llwybrau Cyhoeddus

Dosbarthodd Sean gopïau o'r cyflwyniad, a oedd yn egluro'r broses ac yn cynnwys diffiniadau. Hefyd fe ddosbarthodd rhestr o achosion cyfredol fel yr oeddynt ar 30ain Medi 2011, parthed Gorchmynion Addasu, Gwyriadau a Chreu.

Nodwyd bod rhai pobl o'r farn bod y geiriad ar y we ynglŷn â Gorchmynion, ayb, yn anodd ei ddeall. Byddai'r cyflwyniad yn ddefnyddiol wrth we-lywio'r wefan.

Rhoddwyd gair o ddiolch i Sean am gyflwyniad ardderchog ac roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn hynod ddiddorol a defnyddiol. Hefyd rhoddwyd gair o ddiolch i Sion a Nicola am eu mewnbwn yn ystod yr eitem.

08/11 UNRHYW FATER ARALL:

i) Mae ras feiciau ar draws rhannau o Wrecsam a Sir Ddinbych i'w chynnal ar 9fed Hydref 201 er budd yr hosbis. Adroddwyd na fu'n hi'n hawdd iawn cael gafael ar wybodaeth a bod rhywfaint o ymgynghori wedi digwydd, ond mai yn hwyr yn y dydd y digwyddodd hynny. Mae gwaith atgyweirio ar y ffordd a seiclwyr wrthi'n ymarfer wedi tarfu ar bobl. Mae rhai trigolion a busnesau lleol yn teimlo na fyddant hwy yn elwa, am y bydd rhai ffyrdd ar gau am ran o'r ras neu gydol y ras ac y dylai'r ymgynghori gyda thrigolion a busnesau fod wedi digwydd yn gynt.
Mynegwyd pryder ynghylch cau'r ffordd a'r effaith ar fusnesau a thrigolion.
Nodwyd mai mater yw hwn ar gyfer Adran Priffyrdd.

ii) Mae'n debyg y bydd marathon Caer yn effeithio'r Orsedd, ond bod ymgynghori wedi digwydd ar bob cam, am gryn dipyn o amser.

iii) Estyniad arfaethedig i'r AHNE – aeth SR i gyfarfod gyda CBSW a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA). Mae'n bosib y bydd hyn o gymorth i berchnogion tir ac fe ddylai helpu twristiaeth.

iv) Mae MP, SG a TS yn gobeithio cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r adran Dwristiaeth a byddant yn codi'r mater hwn.

v) Mae'r glicied sydd ar y gât a osodwyd ym Mrymbo 66 yn hawdd iawn i'w defnyddio.

vi) Mae Map Diffiniol ar gael ar gyfer Hawliau Tramwy ond dim ond fel rhan o hawliau mynediad ar y Map Dosbarthiad Priffyrdd. Mae galw am gael un map gyda phob llwybr a hawliau tramwy wedi eu nodi arno. KM i ddod ag enghreifftiau i'r cyfarfod nesaf.

GWEITHREDU:
MP, SG a TS i drefnu cyfarfod gyda'r adran Dwristiaeth.
KM i ddod ag enghreifftiau o lwybrau, ayb i'r cyfarfod nesaf.

09/11 EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF:

Cysylltu â Gogledd Gororau Cymru a Sustrans.

10/11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Dydd Gwener, 11eg Tachwedd 2011, gan ddechrau am 2pm. Lleoliad i'w drefnu.

Dydd Gwener, 3ydd Chwefror 2012, gan ddechrau am 2pm. Lleoliad i'w drefnu.

Am fod parcio yn peri problemau, awgrymwyd y gellid cynnal mwy o gyfarfodydd mewn lleoliadau eraill yn hytrach na Neuadd y Dref. Yr ysgrifennydd i ymchwilio i hyn.